**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol**

**Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn pennu bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os bydd un o Filiau Senedd y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru ar gyfer unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, neu sy'n newid ei chymhwysedd deddfwriaethol.

2. Cyflwynwyd y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) ("y Bil") gan Mark Spencer AS yn Nhŷ'r Cyffredin a chafodd ei Ddarlleniad Cyntaf ar 4 Rhagfyr 2023. Mae ail ddarlleniad y Bil wedi'i amserlennu ar gyfer 18 Rhagfyr 2023. Mae'r Bil ar gael yn:

   Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) - Biliau Seneddol - Senedd y DU

## Amcanion Polisi

3. Amcan polisi datganedig y Bil yw gwahardd allforio gwartheg, defaid, geifr, moch a cheffylau (da byw perthnasol, neu "relevant livestock") i'w lladd, gan gynnwys eu pesgi i'w lladd wedi hynny. Nid yw'r gwaharddiad arfaethedig ond yn berthnasol i allforio, neu i drefnu ar gyfer allforio, da byw perthnasol sy'n dechrau ym Mhrydain Fawr, neu sy'n croesi drwyddi i deithio i'r tu allan i Ynysoedd Prydain (bydd hyn yn cwmpasu holl Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd (yr UE) a thrydydd gwledydd eraill).

## Crynodeb o’r Bil

4. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra).

5. Mae’r Bil yn gwneud darpariaeth yn y meysydd a ganlyn:

   Cymal 1: Gwahardd allforio da byw i'w lladd

   Cymal 2: Rheoliadau ynghylch gorfodi adran 1

   Cymal 3: Adran 2: atodol

   Cymal 4: Rheoliadau gorfodi: gweithdrefn etc

   Cymal 5: Diddymiadau cysylltiedig mewn perthynas â cheffylau

   Cymal 6: Swyddogaethau cydredol yng Nghymru

   Cymal 7: Rhychwant, cychwyn ac enw byr

6. Fel y nodir uchod, bydd y Bil yn gwahardd allforio da byw perthnasol i'w lladd, gan gynnwys eu pesgi i'w lladd wedi hynny, pan fyddant yn dechrau eu taith ym Mhrydain Fawr, neu'n croesi trwy Brydain Fawr ar y ffordd i Aelod-wladwriaethau'r UE a thrydydd gwledydd eraill.

7. Ni fydd y gwaharddiad yn gymwys i symud da byw perthnasol o fewn Prydain Fawr. Ni fydd ychwaith yn gymwys i allforion at ddibenion eraill, er enghraifft allforion at ddibenion bridio, cystadlu a rasio, a dibenion gwyddonol. Dim ond da byw perthnasol sy'n cael eu cynnwys yn y gwaharddiad y darperir ar ei gyfer gan y Bil. Er eglurder mae hyn yn golygu nad yw'r gwaharddiad yn cynnwys dofednod. Mae hyn oherwydd nad ystyrir ar hyn o bryd fod allforio dofednod yn codi unrhyw bryderon sylweddol o ran lles.

8. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol (yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban neu Weinidogion Cymru) wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer gorfodi'r gwaharddiad ar allforio da byw perthnasol i'w lladd ("Rheoliadau Gorfodi").

9. Mae'r pŵer hwn i wneud rheoliadau yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru mewn meysydd cymhwysedd deddfwriaethol. Yn ogystal, mae'r Bil hwn yn creu pŵer cydredol plws newydd sy'n darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond gwneud Rheoliadau Gorfodi mewn meysydd cymhwysedd datganoledig gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

10. Mae'r Bil yn diddymu adrannau 40 i 49 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (darpariaethau yn ymwneud ag allforio ceffylau) ac yn gwneud diwygiadau eraill i'r Ddeddf honno sy'n ganlyniadol i'w diddymu. Rhaid i Weinidogion Cymru ddod â'r ddarpariaeth hon i rym o dan eu pwerau i wneud rheoliadau ar gyfer cychwyn. Gweinidogion Cymru yn unig sydd â'r pŵer i wneud rheoliadau cychwyn.

**Darpariaethau yn y Bil y mae'n ofynnol cael cydsyniad ar eu cyfer**

11. Mae'r Bil yn nodi fframwaith cyfreithiol newydd sy'n gwahardd allforio da byw perthnasol yn fyw at ddibenion eu lladd neu eu pesgi ar gyfer eu lladd ac o'r herwydd mae pob cymal ynddo'n gysylltiedig â'i gilydd, ac yn faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

12. Mae angen cydsyniad ar gyfer y Bil cyfan felly, ac eithrio ar gyfer darpariaethau sy'n gymwys o ran yr Alban neu Loegr yn unig. Y darpariaethau hynny nad oes angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol arnynt yw cymalau 1(6)(b), 2(4)(b), 4(5), 5(b), 7(1)(a), 7(2)(a) a (b), 7(4) a 7(5).

**Cymal 1: Gwahardd allforio da byw i'w lladd**

13. Mae is-adran (1) yn gwahardd allforio da byw perthnasol o Brydain Fawr i'w lladd ac mae is-adran (2) yn ei gwneud yn drosedd torri'r gwaharddiad hwn.

14. Mae is-adran (3) yn disgrifio "exports" at ddiben penderfynu a yw person wedi torri'r gwaharddiad yn is-adran (1). Effaith y ddarpariaeth hon yw y bydd yn parhau'n gyfreithlon allforio, ceisio allforio, trefnu neu geisio trefnu, allforion da byw at ddibenion eu lladd neu eu pesgi ar gyfer eu lladd o Ogledd Iwerddon i Brydain Fawr. Pan fo allforion o'r fath yn cael eu cyfeirio trwy Brydain Fawr i unrhyw le y tu allan i Ynysoedd Prydain (y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel neu Ynys Manaw) byddai hyn yn torri'r gwaharddiad y darperir ar ei gyfer yn y Bil hwn.

15. Mae is-adran (4) yn diffinio da byw perthnasol fel:

    (a) gwartheg ac anifeiliaid buchol eraill,

    (b) ceffylau ac anifeiliaid ceffylaidd eraill,

    (c) defaid

    (d) geifr, neu

    (e) moch neu faeddod gwyllt.

16. Mae is-adran (5) yn darparu bod trosedd o allforio da byw perthnasol yn cael ei chyflawni pan fo'r person sy'n allforio da byw perthnasol yn gwybod, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo wybod, eu bod yn cael eu hallforio at y diben o gael eu lladd neu at y diben o gael eu pesgi i'w lladd.

17. Mae is-adran (6)(a) yn darparu bod person sy'n cyflawni trosedd o dan y cymal hwn yng Nghymru a Lloegr yn agored ar euogfarn ddiannod i garchar am gyfnod nad yw'n hwy na'r uchafswm am droseddau diannod, dirwy neu'r ddau.

18. Mae is-adran (7) yn egluro mai 6 mis yw'r cyfnod hiraf ar gyfer troseddau diannod yng Nghymru a Lloegr hyd nes y daw adran 281(5) o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 i rym, ac mai 51 wythnos fydd y cyfnod hiraf o garchar yng Nghymru a Lloegr o'r adeg honno.

**Cymal 2: Rheoliadau ynghylch gorfodi adran 1**

19. Mae is-adran (1) yn rhoi pŵer i'r awdurdod cenedlaethol priodol i wneud rheoliadau i ddarparu ar gyfer gorfodi'r gwaharddiad ar allforio anifeiliaid byw i'w lladd.

20. Diffinnir “appropriate national authority” yng nghymal 3(2).

21. Mae is-adran (2) yn darparu y caiff awdurdod cenedlaethol priodol wneud unrhyw ddarpariaethau yr ystyria'n briodol ar gyfer, neu mewn cysylltiad ag atal, canfod, ymchwilio neu gosbi achosion o dorri'r gwaharddiad y darperir ar ei gyfer yn y Bil.

22. Mae is-adran (3) yn darparu rhestr, nad yw'n rhestr gynhwysfawr, o'r hyn y caiff y rheoliadau hyn ddarparu ar ei gyfer, gan gynnwys pwerau mynediad, pwerau i ymafael neu gadw, i greu troseddau ac i osod sancsiynau sifil.

23. Mae is-adran (4)(a) yn cyfyngu'r rheoliadau gorfodi sy'n rhoi pŵer mynediad mewn perthynas ag annedd breifat (heb gydsyniad y meddiannydd neu gan ddefnyddio grym rhesymol) oni bai bod y pŵer yn cael ei arfer o dan awdurdod gwarant a ddyroddir gan ynad heddwch.

24. Mae is-adran (5) yn egluro cwmpas y pŵer yn is-adran (4) o gymal 3 i wneud darpariaeth ar gyfer gosod sancsiynau sifil mewn rheoliadau yn ymwneud â gorfodi cymal 1.

25. Mae is-adran (6) yn egluro cwmpas troseddau y gellir eu creu mewn perthynas â rheoliadau a wneir o dan is-adran (1).

**Cymal 3: Adran 2: atodol**

26. Mae'r cymal hwn yn gymwys at ddibenion cymal 2. Mae is-adran (2) o'r cymal hwn yn diffinio "appropriate national authority", mae is-adran (4) yn diffinio "civil sanction" ac mae is-adran (5) yn diffinio "enactment".

27. Mae is-adran (2)(c) yn darparu bod awdurdod cenedlaethol priodol ("appropriate national authority") yn cynnwys Gweinidogion Cymru i'r graddau y byddai darpariaethau a wneir gan reoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

28. Mae is-adran (3)(b) yn darparu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond gwneud rheoliadau gorfodi sy'n cynnwys darpariaethau y gallai Gweinidogion Cymru eu gwneud os yw Gweinidogion Cymru yn cydsynio iddynt wneud hynny. Mae'r is-adran hon yn creu pŵer cydredol plws newydd, ceir eithriad i'r cyfyngiad yng nghymal 6 (gweler paragraffau 32 – 34 isod).

**Cymal 4: Rheoliadau gorfodi: gweithdrefn etc**

29. Mae'r cymal hwn yn darparu bod rhaid i reoliadau gorfodi a wneir o dan gymal 2 gael eu gwneud drwy offeryn statudol o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, y cânt gynnwys darpariaethau canlyniadol, deilliadol, trosiannol neu ddarpariaethau arbed, ac y cânt gynnwys darpariaethau gwahanol at ddibenion a meysydd gwahanol.

30. Nid oes angen cydsyniad ar gyfer is-adran (5) gan fod hon yn gymwys o ran yr Alban yn unig.

**Cymal 5: Diddymiadau cysylltiedig mewn perthynas â cheffylau**

31. Mae'r cymal hwn yn diddymu adrannau 40 i 49 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981 (darpariaethau yn ymwneud ag allforio ceffylau) ac mae hefyd yn gwneud diwygiadau eraill i adran 95(5)(b) o'r Ddeddf honno sy'n ganlyniadol i ddiddymu adrannau 40-49.

**Cymal 6: Swyddogaethau cydredol yng Nghymru**

32. Mae'r Bil hwn yn creu swyddogaeth gydredol plws sy'n golygu na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol ond gwneud rheoliadau gorfodi mewn perthynas â meysydd cymhwysedd y Senedd gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru.

33. Mae cyfyngiadau yn Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn atal Senedd Cymru rhag dileu, heb gydsyniad Llywodraeth y DU, swyddogaeth sydd gan un o Weinidogion y Goron ac sy'n cael ei harfer yn gydredol neu ar y cyd â Gweinidogion Cymru.

34. Mae cymal 6 yn datgymhwyso'r cyfyngiadau perthnasol mewn cysylltiad â'r

pwerau cydredol plws yn y Bil hwn drwy ei ychwanegu, ar ôl iddo gael y Cydsyniad Brenhinol, at y rhestr o ddeddfiadau ym mharagraffau 9(8)(b) ac 11(6)(b) o Atodlen 7B. Bydd hyn yn caniatáu i'r Senedd ddiwygio neu ddileu'r trefniant cydredol plws y darperir ar ei gyfer yn y Bil hwn heb gydsyniad Llywodraeth y DU.

**Cymal 7: Rhychwant, cychwyn ac enw byr**

35. Mae is-adran (1) yn nodi rhychwant tiriogaethol y darpariaethau yn y Bil. Mae is-adran (1)(b) yn darparu bod i ddiwygiadau a diddymiadau cymal 6 yr un rhychwant â'r darpariaethau yn Neddf Llywodraeth Cymru y maent yn ymwneud â hwy.

36. Mae is-adran (2)(c) yn darparu bod cymal 1 (gwahardd allforio da byw i'w lladd) a chymal 5 (diddymiadau cysylltiedig mewn perthynas â cheffylau) yn dod i rym yn unol â rheoliadau cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

37. Mae is-adran (3) yn darparu bod cymalau 2 (gwahardd allforio da byw i'w lladd), 3 (adran 2: atodol), 4 (rheoliadau gorfodi: gweithdrefn etc), a 6 (swyddogaethau cydredol yng Nghymru) yn dod i rym adeg y Cydsyniad Brenhinol.

38. Mae is-adran (6) yn darparu pŵer i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau trosiannol neu ddarpariaethau arbed mewn rheoliadau sy'n cychwyn cymalau 1 (gwahardd allforio da byw i'w lladd) a 5 (diddymiadau cysylltiedig mewn perthynas â cheffylau) o'r Bil.

39. Mae is-adran (7) yn darparu y caiff rheoliadau a wneir o dan y cymal hwn wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol ac mae is-adran (8) yn darparu bod pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau o dan y cymal hwn yn arferadwy drwy offeryn statudol.

40. Mae is-adran (9) yn darparu mai enw byr y Bil fydd Deddf Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw) 2024 ar ôl iddo ddod yn Ddeddf.

**Barn Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad**

41. Barn Llywodraeth y DU yw bod cydsyniad y Senedd yn ofynnol ar gyfer pob cymal ac eithrio cymal 5(b) (rheoliadau gorfodi: gweithdrefn etc) a chymal 6 (swyddogaethau cydredol yng Nghymru).

42. Mae'r Gwir Anrhydeddus Mark Spencer AS, y Gweinidog Gwladol dros Fwyd, Ffermio a Physgodfeydd, wedi datgan mewn gohebiaeth â Llywodraeth Cymru fod holl ddarpariaethau'r Bil (ac eithrio cymalau 5(b) a chymal 6) yn dod o fewn yr eithriadau ym mharagraff 71 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru. Adlewyrchir hyn hefyd ym mharagraff 12 o Nodiadau Esboniadol y Bil.

43. Gan nodi'r eithriadau hyn, barn Llywodraeth y DU yw bod gweddill darpariaethau'r Bil yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac felly bod proses y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn berthnasol iddynt.

**Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Lles Anifeiliaid (Allforion Da Byw)**

44. Mae lles anifeiliaid yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Dim ond pan fo angen y dylid cludo anifeiliaid, a dylai teithiau fod mor fyr ag y bo modd. Mae allforio da byw a cheffylau i'w lladd neu eu pesgi yn ddiangen oherwydd y gellid eu lladd neu eu pesgi yn ddomestig.

45. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd ar welliannau i les anifeiliaid wrth gludo. Roedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynigion i wella amgylchiadau cludo anifeiliaid yn fwy cyffredinol, ac ar y cynnig i roi terfyn ar allforio da byw a cheffylau o Gymru a Lloegr i'w lladd a'u pesgi (lle nad oedd eithriad). Ymgynghorodd Llywodraeth yr Alban ar wahân ar gynigion tebyg. Mae'r tair Llywodraeth wedi ymrwymo i weithio ar y cyd i wahardd allforio anifeiliaid byw. Mae angen dull cyson a chydlynol o wahardd a gorfodi ar draws Prydain Fawr er mwyn i waharddiad fod yn effeithiol.

46. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'n briodol i'r Bil hwn gan y DU wneud darpariaeth o ran Cymru yn unol â'n hegwyddorion ar Filiau'r DU. Mae'r Bil yn cynnig cyfle amserol i gyflawni amcan polisi penodol a rennir ar draws Prydain Fawr. Mae hyn yn cynnwys yr angen posibl i sicrhau darpariaeth orfodi ledled Prydain Fawr, gan gynnwys trwy bwerau cydredol plws sy'n cydnabod egwyddorion datganoli yn briodol. Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r Bil fel y'i drafftiwyd.

**Goblygiadau Ariannol**

47. Bydd darpariaethau yn y Bil yn creu rhai mân gostau i'r refeniw cyhoeddus, fel a nodir yn yr asesiad effaith, sydd hefyd yn cynnwys yr effeithiau ar fusnes. Mae amcangyfrif o'r costau i'r refeniw cyhoeddus yn cynnwys costau gweinyddol a gorfodaeth yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion yn ogystal â mân effaith ar y system cyfiawnder troseddol.

**Casgliad**

48. Yn fy marn i, mae'n briodol i'r holl ddarpariaethau perthnasol gael eu gwneud yn y Bil hwn gan y DU. Rwyf felly’n argymell bod y Senedd yn cefnogi’r cynigion ac yn rhoi ei chydsyniad.

**Lesley Griffiths AS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**19 Rhagfyr 2023**